| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 21, Mehefin, 2012. |
| Pwnc | Diwygiadau i'r Cyfansoddiad. |
| Awdur | Dilys Phillips, Swyddog Monitro |

1. Yn ei gyfarfod ar 17, Mai, 2012 mabwysiadodd y Cyngor Gyfansoddiad newydd.

2. Roedd y Cyfansoddiad yn sefydlu Pwyllgor Iaith gyda 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol ond nid oedd yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor.

3. Bellach yn sgîl trafodaethau gydag aelodau a swyddogion perthnasol, gellir argymell cylch gorchwyl i'r pwyllgor ac mae'r argymhelliad i'w weld yn Atodiad '1'.

4. Dan y rheoliadau yn ymwneud â chyflogi swyddogion mae penodiadau i swyddi pennaeth adran neu gyfarwyddwr i'w gwneud gan bwyllgor, penodiad Prif Weithredwr i'w wneud gan y Cyngor llawn a phenodiad i bob swydd arall i'w gwneud gan swyddog. Gan y bydd swydd Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod yn wag yn yr wythnosau nesaf, gofynnir i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion, fydd yn cynnwys 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol a chyda'r cylch gorchwyl a argymhellir yn Atodiad '2'.

5. Oherwydd y brys i benodi i'r swydd dan sylw, gofynnir i'r Cyngor ddirprwyo i'r Pwyllgor, yr hawl i ystyried yr holl opsiynau ar gyfer llenwi'r swydd gan gynnwys, er enghraifft, ail-strwythuro, a dod i benderfyniad ar y dull mwyaf priodol ac yna gweithredu arno.

6. **<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

   Gofynnir i'r Cyngor :-

   a) fabwysiadu'r cylch gorchwyl yn Atodiad '1' ar gyfer y Pwyllgor Iaith;
   b) sefydlu Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gyda'r cylch gorchwyl yn Atodiad '2' ac yn cynnwys 15 aelod o'r Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol;
   c) awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i roi effaith i'r penderfyniadau;
   ch) ddirprwyo i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar gyfer swydd Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr hawl i ystyried, dod i benderfyniad a gweithredu ar y dull mwyaf priodol o lenwi'r swydd.

ATODIAD '1'

# PWYLLGOR IAITH

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8, Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

- **Mae'r tabl isod yn rhestri'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Rhan 3 o'r Cyfansoddiad).**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)* |
|---|---|---|
| Goruchwylio gweithrediad Cynllun Iaith Cyngor Gwynedd | | |
| Pennu cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth mewn ymateb i'r Safonau Iaith a osodir gan Gomisiynydd y Gymraeg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio | | |
| Derbyn gwybodaeth ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg yn unol â'r angen | | |

ATODAID '2'

# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

- **Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Erthygl 8, Rhan 2 y Cyfansoddiad.**

- **Mae'r tabl isod yn rhestri'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Rhan 3 o'r Cyfansoddiad).**

| **Swyddogaeth** | **Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol** | ***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)* |
|---|---|---|
| 1. Rhoddi cyfweliad rhagarweiniol i ymgeiswyr am swydd y Prif Weithredwr a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor Llawn | | |
| 2. Penodi Cyfarwyddwyr Strategol | | |
| 3. Penodi Penaethiaid Adran | | |
| 4. Tynnu rhestr fer at ddibenion 1 i 3 uchod. | | |
| 5. Penderfynu ar gamau disgyblaeth yn erbyn aelodau o staff yn y swyddi a restrir yn 1 i 3 uchod. | | |